# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)01-07 (p2): 20 Medi 2007**

## Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor i faterion yn ymwneud â Lleihau Gollyngiadau Carbon yng Nghymru.

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno cylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer ymchwiliad craffu cyntaf y Pwyllgor i fateron yn ymwneud â lleihau gollyngiadau carbon yng Nghymru. 2. Gofynnir i'r Aelodau gytuno ar y cylch gorchwyl, y cynllun prosiect yn Atodiad A a'r rhestr arfaethedig o dystion ar gyfer pwnc cyntaf yr ymchwiliad yn Atodiad B.

### Y Cefndir

3. Yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor mai lleihau gollyngiadau carbon yng Nghymru fyddai testun ei ymchwiliad cyntaf. 4. Papur cwmpasu, yn amlinellu cefndir yr ymdrechion i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru, a rhai o'r materion yn ymwneud â hynny, yw papur 2 ar gyfer y cyfarfod hwn.

### Y Cylch Gorchwyl Arfaethedig

5. Craffu ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran cyfrannu at dargedau'r DU ar gyfer lleihau gollyngiadau carbon a'i gynigion ar gyfer cyrraedd y targed o sicrhau gostyngiad o 3% bob blwyddyn mewn gollyngiadau carbon yng Nghymru, fel y nodwyd yn nogfen Cymru'n Un. Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y meysydd pwnc a ganlyn:

Lleihau gollyngiadau carbon yn y sector preswyl
Lleihau gollyngiadau carbon yn y sector trafnidiaeth
Lleihau gollyngiadau carbon yn y sector diwydiant ac mewn cyrff cyhoeddus
Lleihau gollyngiadau carbon yn y sector cynhyrchu trydan (gan gynnwys ynni adnewyddadwy)
Rheoli'r defnydd o dir gwledig a lleihau gollyngiadau carbon
Rôl y system gynllunio o ran lleihau gollyngiadau carbon

Cynigir bod ymgynghoriad ysgrifenedig yn cael ei gynnal ar ddechrau'r ymchwiliad yng nghyswllt pob maes pwnc.

### Argymhelliad

6. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl arfaethedig, y cynllun prosiect arfaethedig yn Atodiad A a'r rhestr arfaethedig o dystion yn Atodiad A. **Cyswllt: Virginia Hawkins - Clerc y Pwyllgor - 8409**

## Atodiad A

### Cynllun prosiect manwl arfaethedig ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i faterion yn ymwneud â Lleihau Gollyngiadau Carbon yng Nghymru

Cynigir bod y Pwyllgor yn cynnal yr ymchwiliad i faterion yn ymwneud â lleihau gollyngiadau carbon ar ffurf cyfres o ymchwiliadau pwnc, gyda phob un yn dilyn y llall a chan graffu ar waith y Gweinidog perthnasol ar ddiwedd pob pwnc. Yna byddai casgliadau pob ymchwiliad pwnc yn cael eu dwyn ynghyd i greu adroddiad terfynol ac argymhellion y Pwyllgor.

### Amserlen arfaethedig ar gyfer tymor yr hydref 2007

Dydd Iau 20 Medi Cytuno ar y cylch gorchwyl a thrafod y papur cwmpasu   Dydd Iau 4 Hydref Golwg strategol ar leihau gollyngiadau carbon yn y DU ac yng Nghymru - Asiantaeth yr Amgylchedd, Yr Ymddiriedolaeth Garbon, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

### Pwnc 1$^{af}$ - Lleihau gollyngiadau carbon yn y sector preswyl

Dydd Iau 11 Hydref, dydd Iau 18 Hydref, dydd Iau 22 Hydref Tystiolaeth gan randdeiliaid yng Nghymru ynghylch sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'i phwerau presennol i hybu'r broses o leihau gollyngiadau carbon, faint rhagor y gallai ei wneud gyda'i phwerau presennol a syniadau ynglŷn â sut y gallai ddefnyddio pwerau ychwanegol. Tystiolaeth o arfer da yn y DU ac yn Ewrop. Dydd Iau 8 Tachwedd Craffu ar waith y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar sail y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor. Dydd Iau 15 Tachwedd Gwerthuso'r broses hyd yn hyn a thrafod argymhellion y Pwyllgor ar gyfer y pwnc cyntaf

### Dechrau ar yr 2$^{il}$ bwnc - Lleihau gollyngiadau carbon yn y sector trafnidiaeth

Dydd Iau 22 Tachwedd, dydd Iau 29 Tachwedd, dydd Iau 6 Rhagfyr

Cytuno’n ffurfiol ag adroddiad y Pwyllgor a’i argymhellion ar gyfer y pwnc cyntaf. Tystiolaeth gan randdeiliaid yng Nghymru ynghylch sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio’i phwerau presennol i hybu’r broses o leihau gollyngiadau carbon, faint rhagor y gallai ei wneud gyda’i phwerau presennol a syniadau ynglŷn â sut y gallai ddefnyddio pwerau ychwanegol. Tystiolaeth o arfer da yn y DU ac Ewrop. Dydd Iau 13 Rhagfyr Craffu ar waith y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar sail y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor 17 Rhagfyr -11 Ionawr - Toriad. Dydd Iau 17 Ionawr Trafod argymhellion y Pwyllgor ar gyfer yr ail bwnc

### Dechrau’r 3ydd pwnc - Lleihau gollyngiadau carbon yn y sector diwydiant ac mewn cyrff cyhoeddus

Dydd Iau 24 Ionawr Cytuno’n ffurfiol ag adroddiad y Pwyllgor a’i argymhellion ar gyfer yr ail bwnc Dechrau ary pwnc - nid oes amserlen ar gyfer y pwnc hwn eto.

### 4ydd pwnc - Lleihau gollyngiadau carbon yn y sector cynhyrchu trydan (gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy)

Yn dilyn casgliadau’r 3ydd pwnc.

### 5ed pwnc - Rheoli’r defnydd o dir gwledig a lleihau gollyngiadau carbon

Yn dilyn casgliadau’r 4ydd pwnc (mae’n bosibl na fydd angen mwy nag 1 neu 2 o gyfarfodydd)

### 6ed pwnc - Lleihau gollyngiadau carbon drwy’r system gynllunio

Yn dilyn casgliadau’r 5ed pwnc (mae’n bosibl na fydd angen mwy nag 1 neu 2 o gyfarfodydd) Rhagwelwn y gellid defnyddio’r 2 neu 3 chyfarfod nesaf i adolygu’r dystiolaeth ac i nodi a chlywed tystiolaeth gan unrhyw berson neu gorff na chawsant eu cynnwys yn y meysydd pwnc. Y gobaith yw y bydd y Pwyllgor yn cytuno ar yr adroddiad terfynol a’r argymhellion cyn dechrau tymor yr haf.

## Atodiad B

### Tystion arfaethedig ar gyfer y pwnc cyntaf (Y Sector Preswyl)

Cyswllt Amgylchedd Cymru
Y Ganolfan Technoleg Amgen
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Y Gymdeithas Adeiladwyr Cartrefi
CLlLC
Cartrefi Cymunedol Cymru
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru Cymdeithas Manwerthwyr Ynni (mesuryddion call)
Bwrdeistref Merton yn Llundain (cynllunio cynaliadwy)
Alan Jones (Asiantaeth Newid yn yr Hinsawdd Llundain, Cynulliad Llundain)
Sefydliad Newid Amgylcheddol Prifysgol Rhydychen
Y Gymdeithas Adeiladu Cynaliadwy